Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymunedol Glan Aber

**Boot End**
**Bagillt**
**Sir y Fflint**
**CH6 6LW**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymunedol Glan Aber

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymunedol Glan Aber |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir y Fflint |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Ddim yn berthnasol |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 155 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 109 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 22 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 50.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 24.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 1.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2011 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/07/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 27/02/2023 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Glan Aber yn ysgol gynnes a chynhwysol, sy’n hyrwyddo awyrgylch cadarnhaol ac ethos gofalgar yn llwyddiannus. Mae disgyblion yn mwynhau dysgu ac maent yn frwdfrydig yn ystod gwersi a thasgau. Mae hyn oherwydd y perthnasoedd gweithio cryf iawn sydd ganddynt gyda’u hathrawon ac aelodau staff eraill. Mae hyn yn helpu disgyblion i wneud cynnydd da o’u gwahanol fannau cychwyn o ran datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd a’u medrau digidol a chymdeithasol.

Mae dysgu yn hynod lwyddiannus pan mae’r addysgu’n gyson ac o ansawdd uchel. Mae disgyblion yn ffynnu pan fyddant yn derbyn adborth sy’n bwrpasol ac yn eu herio i berfformio ar eu gorau. Fodd bynnag, pan fydd anghysondebau’n digwydd, nid yw’r addysgu a’r adborth yn helpu disgyblion i wella’u gwaith yn effeithiol.

Mae pob un o’r staff yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ddisgyblion, ac yn eu cynorthwyo ac yn gofalu amdanynt yn ddiwyd. Mae hyn yn annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu lles a’u hymddygiad eu hunain yn eithriadol o dda. Mae hyn yn cyfrannu at eu hawydd i ddysgu a’u gwydnwch i ddyfalbarhau â thasgau.

At ei gilydd, mae amgylchedd yr ysgol yn hyrwyddo cyfleoedd dysgu buddiol. Er enghraifft, mae staff yn defnyddio’r ardal goetir ysgogol yn bwrpasol i ennyn diddordeb disgyblion mewn gweithgareddau. Fodd bynnag, nid yw’r ddarpariaeth awyr agored yn gyson ac yn deg ar gyfer yr holl ddisgyblion iau.

Mae arweinwyr yn gwerthuso gwaith yr ysgol i gynllunio ar gyfer gwelliannau yn drylwyr. Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref ac effeithiol ac yn benderfynol o lwyddo er budd disgyblion a’r gymuned. Mae’r uwch dîm arweinyddiaeth, staff a llywodraethwyr yn rhannu ei weledigaeth bwrpasol. Maent yn gweithio gyda’i gilydd yn dda i sicrhau bod yr ysgol yn gynhwysol a’i bod yn hyrwyddo cyfleoedd dysgu cadarnhaol. Fodd bynnag, nid yw cyfrifoldebau ar y cyd unigolion ar yr uwch dîm arweinyddiaeth wedi’u diffinio’n ddigon clir.

Mae’r pennaeth yn sicrhau bod y prosesau hunanwerthuso yn arwain at y targedau pwysicaf ar gyfer gwella’r ysgol. Mae’n cefnogi’r strategaethau gwella yn dda trwy ddarparu cyfleoedd buddiol i staff ddatblygu eu harbenigedd trwy ddysgu proffesiynol gwerthfawr. Mae hyn yn cyfrannu at ethos ysgol gyfan cadarnhaol, lle mae staff a disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am eu cyfraniadau at fywyd yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Mynd i’r afael â mater diogelwch ar y safle a nodwyd adeg yr arolygiad

A2 Sicrhau bod ansawdd yr addysgu a’r adborth ar waith disgyblion yn gyson ar draws yr ysgol

A3 Diffinio cyfrifoldebau uwch arweinwyr â mwy o eglurder

A4 Sicrhau bod adnoddau’n cael eu darparu’n deg ar draws pob dosbarth ar gyfer profiadau dysgu yn yr ardaloedd dysgu yn yr awyr agored i ddisgyblion iau

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol â medrau llythrennedd, rhifedd a chymdeithasol sy'n is o lawer na'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn isel. Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd yn unol â'u cyfoedion, o leiaf, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar oedolion ac ar ei gilydd. Mae medrau llafaredd y disgyblion ieuengaf yn datblygu'n llwyddiannus, ac erbyn Blwyddyn 2, maent yn siarad yn hyderus am eu gwaith a'u profiadau. Er enghraifft, mae disgyblion yn y dosbarth meithrin yn cyfathrebu'n bwrpasol â'i gilydd wrth gynllunio ac adeiladu gwahanol fathau o gerbydau â siapiau tri dimensiwn. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn datblygu medrau llafaredd effeithiol yn Saesneg. Maent yn cyfathrebu'n synhwyrol ac yn cyfrannu'n frwdfrydig at drafodaethau dosbarth, gan fynegi eu barn yn aeddfed. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn esbonio'u canfyddiadau'n huawdl yn dilyn ymchwil ar effaith newid hinsawdd ar wahanol wledydd o gwmpas y byd.

Wrth siarad Cymraeg, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu geirfa addas ac yn ymateb i sylwadau a chyfarchion yn briodol. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ymadroddion sylfaenol yn hyderus, er enghraifft i fynegi eu teimladau neu wrth drafod y tywydd. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn galw geirfa a strwythurau brawddeg perthnasol i gof yn briodol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau llafaredd Cymraeg boddhaol.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae disgyblion meithrin a derbyn yn dangos diddordeb mewn llyfrau a deunyddiau darllen eraill, ac maent yn mwynhau rhannu a thrin a thrafod y llyfrau fel darllenwyr sy'n datblygu. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 1 yn dod yn gyfarwydd â'r berthynas rhwng llythrennau a seiniau yn gyflym ac yn defnyddio ystod briodol o strategaethau ffoneg i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd yn hyderus. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio eu medrau darllen yn dda, er enghraifft wrth ddarllen llyfrau stori, pamffledi a chardiau cyfarwyddol. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn darllen yn ddeallus mewn cyd-destunau amrywiol. Maent yn amrywio tôn eu llais ac yn defnyddio atalnodi'n gywir i ddangos eu dealltwriaeth. Maent yn datblygu eu medrau darllen datblygedig yn bwrpasol i gasglu gwybodaeth o wahanol ffynonellau. Mae hyn yn cynnwys dod o hyd i wybodaeth berthnasol am yr heriau a oedd yn wynebu ymfudwyr yn teithio ar y môr ar long Windrush o Ynysoedd y Caribî i Brydain yn ystod y 1960au.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol fel ysgrifenwyr. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio atalnodi a gramadeg yn gywir ac yn defnyddio ansoddeiriau a chyffelybiaethau yn bwrpasol wrth ddisgrifio teimladau gwahanol gymeriadau. Wrth i ddisgyblion symud ymlaen o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6, mae llawer ohonynt yn ysgrifennu'n fwy annibynnol mewn ystod ehangach o genres. Er

enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn ysgrifennu llythyrau perswadiol ar effaith llifogydd a'r angen am amddiffynfeydd rhag llifogydd o gwmpas ardaloedd arfordirol. Mae llawer o ddisgyblion yn golygu eu gwaith yn briodol ac yn defnyddio geirfa fwy soffistigedig i wella'u drafftiau terfynol. Mae safon eu darnau gwaith terfynol yn dda, ar y cyfan, ac yn adlewyrchu'r cynnydd cadarnhaol a wnânt o'u mannau cychwyn unigol.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau mathemategol yn effeithiol ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, erbyn Blwyddyn 1, mae llawer o ddisgyblion yn gwahanu rhifau dau ddigid yn dda gan ddefnyddio bwndeli o frigau, moch coed a cherrig bach fel sbardun. Mae disgyblion hŷn yn datblygu eu medrau rhifedd yn llwyddiannus ac yn plotio cyfesurynnau i gynrychioli clystyrau o sêr, fel yr Arth Fawr ac Orïon. Mae llawer ohonynt yn defnyddio amrywiaeth eang o fedrau, fel rheoli cyllideb i baratoi ar gyfer parti a phwyso cynhwysion ar gyfer prydau bwyd maethlon. Maent yn defnyddio graffiau llinell yn ddeallus hefyd i gymharu'r cynnydd mewn mudo ledled y byd dros y 30 mlynedd ddiwethaf.

Mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar fedrau digidol da, ac yn eu cymhwyso'n llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion iau yn rhaglennu robotiaid i deithio o gwmpas cwrs yn effeithlon. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn trin testun yn effeithiol, fel addasu a chreu ffeiliau ffeithiau. Maent yn paratoi cyflwyniadau yn hyderus, er enghraifft trwy greu a fformatio posteri perswadiol ar ddatgoedwigo. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn deall sut i chwilota mewn cronfeydd data a thaenlenni yn gywir.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau artistig a chreadigol yn dda. Mae hyn yn arbennig o wir am y disgyblion ieuengaf, sy'n creu celf a chwarae rôl mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth derbyn yn cydweithredu'n dda ac yn dilyn ryseitiau i greu pizzas baw yn yr ardal gegin awyr agored. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn croesawu'r cyfleoedd i arbrofi'n rhydd i ddatblygu eu creadigrwydd, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 6 ddefnyddio dyfrlliwiau yn annibynnol i efelychu gwaith celf ffoadur o Syria.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae'r perthnasoedd proffesiynol rhwng staff a disgyblion yn gryf. Mae hyn yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddysgu a datblygu i fod yn unigolion cyflawn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos balchder yn eu hysgol ac yn teimlo'n ddiogel o fewn ei hethos cynhwysol a gofalgar. Maent yn teimlo bod oedolion yn yr ysgol yn gwrando ar eu barn yn effeithiol ac yn eu hystyried wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrtais a chroesawgar ag oedolion ac ymwelwyr. Maent yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos gofal am ei gilydd ac yn parchu cyfraniadau eu cyfoedion. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i efelychu gwaith arlunydd enwog wrth ddylunio eu gweithiau celf eu hunain gan ddefnyddio deunyddiau naturiol yn yr ardal y tu allan. Yn ychwanegol, yn ystod amseroedd chwarae, mae disgyblion iau yn dangos lefelau uchel o ystyriaeth a charedigrwydd pan fyddant yn fodlon rhannu eitemau offer ymysg ei gilydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda fel dysgwyr abl a dyheadol. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu, yn dangos diddordeb yn eu gwaith, ac yn siarad yn hyderus ac yn frwdfrydig am fywyd yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau athrawon ac yn canolbwyntio'n dda ar eu gwaith yn ystod gwersi. Maent yn cydweithio'n llwyddiannus iawn mewn parau ac mewn grwpiau, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr at drafodaethau dosbarth. O ganlyniad, dangosant lefel uchel o barch am gyfraniadau pobl eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn elwa ar strategaethau i gefnogi eu lles emosiynol yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn esbonio'n synhwyrol sut i ddatrys tasgau unigol heriol trwy ddefnyddio gwahanol ddulliau yn bwrpasol sy'n eu helpu pan fydd eu gwaith yn mynd yn anodd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwerthfawrogi'r mynediad a gânt i'r Ystafell Heulwen i gefnogi eu hanghenion lles ar unrhyw adeg yn ystod y diwrnod ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos gwybodaeth dda am hawliau plant. Er enghraifft, mae aelodau o grwpiau llais y disgybl yn pwysleisio bod ganddynt 'bŵer disgybl' ac y dylai eu hawliau gael eu clywed. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth gref o bwysigrwydd eu cyfraniadau tuag at greu cymdeithas ofalgar ac yn datblygu'n effeithiol fel dinasyddion moesegol a gwybodus. Maent yn deg a gofalgar wrth iddynt ryngweithio â phobl eraill, er enghraifft pan fydd disgyblion o'r Cyngor Lles yn cynorthwyo aelodau lleol â gweithgareddau crefft fel paratoi cardiau a chreu baneri Cymru i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn hapus i gymryd rhan ac yn mynegi barnau dychmygus wrth gynnig syniadau am gwricwlwm yr ysgol. Mae grwpiau cynhwysol llais y disgybl yn galluogi disgyblion i gymryd rhan weithredol ym mywyd yr ysgol ac mae eu cynrychiolwyr yn dangos amrywiaeth o fedrau arwain, fel penderfyniadau ar arbed ynni o gwmpas yr ysgol. Maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn gydwybodol ac mae cynrychiolwyr yn falch o'u cyfraniadau a'u cyflawniadau gwerthfawr. Mae hyn yn cynnwys y Criw Cymraeg sy'n arwain gwasanaethau ysgol gyfan ar faterion sy'n bwysig iddyn nhw, fel datblygu'r defnydd o'r Gymraeg o gwmpas yr ysgol.

Mae disgyblion hŷn yn datblygu'n dda fel cyfranwyr mentrus a chreadigol ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwerthfawr yn effeithiol, fel prosiectau ar y gweithle. Mae hyn yn helpu codi eu hymwybyddiaeth am yrfaoedd a phrofiadau yn gysylltiedig â gwaith trwy weithdai a thasgau i hyrwyddo eu hannibyniaeth a gwaith grŵp. Trwy bartneriaeth â phrifysgol gyfagos, mae disgyblion yn dysgu sut i reoli cyflogau, sy'n eu cynorthwyo i ddatrys problemau mewn ffyrdd ymarferol, ac yn datblygu eu medrau bywyd yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a gallant drafod y buddion yn hyderus. Maent yn deall budd ymarfer corff ar eu hiechyd, fel cymryd rhan mewn tasgau corfforol bob dydd fel y filltir ddyddiol a defnyddio'r llwybr rhaffau. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion wybodaeth gadarn am bwysigrwydd lles corfforol a meddyliol da.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gref o ddefnyddio'r rhyngrwyd yn synhwyrol. Maent yn atgoffa'i gilydd yn feddylgar na ddylent rannu

cyfrineiriau. Yn ychwanegol, trwy eu gwaith â swyddog cyswllt lleol yr heddlu, maent yn gwybod sut i ymateb os byddant yn wynebu bygythiadau i'w lles emosiynol, fel seiberfwlio.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang a chytbwys o brofiadau dysgu sy'n cyd-fynd â gweledigaeth ac egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r cynllunio yn ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda ac yn eu cymell i ddyfalbarhau a llwyddo ym mhob agwedd ar y cwricwlwm. Mae athrawon a staff cymorth yn gweithio gyda'i gilydd yn ddiwyd i ddarparu gweithgareddau sy'n diwallu anghenion disgyblion yn effeithiol. Mae'r ystafelloedd dosbarth a'r rhan fwyaf o'r ardaloedd dysgu yn yr awyr agored yn ysgogol ac yn hyrwyddo datblygiad medrau llawer o ddisgyblion yn dda.

Ar y cyfan, mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymgymryd ag ystod amrywiol o brofiadau i ddatblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys cynllunio gweithgareddau gwerthfawr i gefnogi diddordebau disgyblion, fel rhoi cyfleoedd iddynt gymryd rhan mewn ymholiadau personol. Er enghraifft, mae disgyblion yn ysgrifennu llythyrau at David Attenborough i fynegi eu barn a'u pryderon am faterion amgylcheddol, yn sgil eu hymweliad ag acwariwm.

Mae athrawon yn cynllunio'n drylwyr i helpu disgyblion i wneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn ysgrifennu'n feirniadol am faterion cyfoes sy'n effeithio ar eu bywydau, fel yr argyfwng ynni a nwyon tŷ gwydr. Mae'r cynllunio i ddatblygu medrau rhifedd a medrau digidol disgyblion yn arwain at dasgau pwrpasol sy'n datblygu medrau disgyblion mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn prynu tocynnau a lluniaeth ag arian go iawn o siop Theatr Bagillt yn eu hardal chwarae rôl, ac mae disgyblion hŷn yn coladu ac arddangos gwybodaeth am yr amrywiaeth o ddeunyddiau ailgylchu a gasglwyd o gwmpas yr ysgol. Caiff y ffordd ystyriol hon o gynllunio profiadau effaith gadarnhaol ar werthoedd disgyblion a'u hagweddau at ddysgu.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliant a threftadaeth Cymru. Er enghraifft, mae disgyblion yn llunio adroddiadau addysgiadol ar hanes Tywysogion Cymru ac yn astudio amrywiaeth o farddoniaeth a chwedlau, gan gynnwys disgyblion iau yn dylunio eu hangenfilod llyn eu hunain, wedi'u seilio ar 'Yr Afanc'. Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion yn briodol. Mae staff yn modelu amrywiaeth o gyfarchion, cyfarwyddiadau a chwestiynau yn Gymraeg ac mae'r ysgol yn darparu rhaglenni cyfoethogi i ddatblygu llafaredd Cymraeg disgyblion ymhellach.

Mae'r rhan fwyaf o'r addysgu yn effeithiol. Mae cyflymdra bywiog y rhan fwyaf o wersi yn ennyn diddordeb disgyblion yn dda ac yn eu cymell i ddysgu hyd eithaf eu gallu. Fodd bynnag, nid yw ansawdd yr addysgu mor effeithiol lle mae diffyg symbyliad wrth gyflwyno gwersi, ac nid yw ymgysylltiad disgyblion mor bwrpasol. Pan mae'r addysgu'n fywiog, mae athrawon yn mabwysiadu dulliau addysgu dychmygus i ddatblygu medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae athrawon yn annog disgyblion iau i ddarparu naratifau addysgiadol i gyd-fynd â'u gwaith am bryfed genwair. Yn ychwanegol, mae athrawon yn symbylu disgyblion hŷn yn effeithiol i lunio areithiau cymhellol am ofalu am yr amgylchedd. Yn ychwanegol,

maent yn cynorthwyo ac yn herio disgyblion yn effeithiol i ddatrys problemau. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn arbrofi â llif a chyfaint dŵr gan ddefnyddio jygiau, bwcedi a landeri yn effeithiol, ac mae staff yn herio disgyblion hŷn i nodi amrywiaeth o ffyrdd i adeiladu cylchedau trydanol yn annibynnol.

Mae'r berthynas weithio rhwng staff a disgyblion yn gryf, ac o ganlyniad, mae bron yr holl addysgu yn effeithio'n fuddiol ar ddysgu llawer o ddisgyblion. Mae staff yn adnabod disgyblion yn dda ac yn darparu gweithgareddau ysgogol i ddiwallu eu hanghenion, gan gynnwys y rhai y nodwyd bod angen cymorth ychwanegol arnynt â'u gwaith. Mae staff cymorth yn darparu arweiniad pwrpasol ar gyfer y disgyblion hyn ac yn gwybod pryd i ymyrryd a phryd i'w galluogi i weithio'n annibynnol. Yn ychwanegol, mae addysgu addysg bersonol a chymdeithasol yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u lles yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion yn elwa ar strategaethau penodol fel technegau cymorth pan fyddant yn wynebu gwaith mwy heriol. Mae hyn yn sgaffaldio eu dysgu a'u lles emosiynol yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth ar lafar yn ystod gwersi, sy'n annog disgyblion i weithio'n ddiwyd a chanolbwyntio ar wella agweddau ar eu gwaith. Fodd bynnag, mae ansawdd adborth ysgrifenedig athrawon yn anghyson. Pan mae'n effeithiol, mae disgyblion yn glir ynglŷn â'r hyn mae angen iddynt ei wneud, a sut i wella'u gwaith. Er bod athrawon yn defnyddio canmoliaeth yn helaeth i annog disgyblion, ambell waith, nid ydynt yn esbonio pam maent yn ystyried bod gwaith disgyblion o safon benodol, sy'n ei gwneud yn anodd i ddisgyblion wella. O ganlyniad, nid yw'n cynorthwyo disgyblion i nodi'r camau nesaf yn eu dysgu yn ddigon da. Mae adroddiadau ysgol i rieni yn darparu gwybodaeth fanwl am gynnydd eu plentyn, a'i agweddau at ddysgu.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned gynnes a gofalgar iawn, ac mae staff yn annog disgyblion i gofleidio ei hethos cefnogol a chyfeillgar yn effeithiol. Mae'r perthnasoedd proffesiynol cryf rhwng staff a disgyblion ac ymhlith y disgyblion eu hunain yn nodwedd gref yn yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn gweithio fel arweinwyr digidol i gynorthwyo disgyblion iau i ddylunio animeiddiadau am Santes Dwynwen.

Mae athrawon a staff cymorth yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn ymateb â sensitifrwydd i'w hanghenion emosiynol a chymdeithasol. Mae'r ddarpariaeth gefnogol hon yn helpu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ymgyfarwyddo'n dda â bywyd ysgol ac yn cyfrannu'n sylweddol at eu hapusrwydd yn yr ysgol, er enghraifft trwy ddefnydd pwrpasol o'r Ystafell Heulwen.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion y nodwyd bod ganddynt ADY yn drylwyr. Mae'r cydlynydd ADY yn gweithio'n gydwybodol, mewn partneriaeth ag aelodau staff, i sicrhau bod trefn dda o ran nodi, olrhain a chymorth ar gyfer unigolion a grwpiau o ddisgyblion o oedran cynnar. O ganlyniad i adolygiadau cynnydd disgyblion, mae gan aelodau staff ddealltwriaeth ddyfnach o anghenion disgyblion. Mae staff yn rhyngweithio'n fuddiol ag ystod o wasanaethau i sicrhau adnoddau ychwanegol, amserol a chynnig cymorth arbenigol i ddisgyblion sydd ag ystod o anghenion dysgu, emosiynol a chymdeithasol. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n elwa ar gymorth ychwanegol yn gwneud cynnydd da o ran eu cyfnod datblygu.

Mae'r ysgol yn datblygu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau i wella'u profiad yn yr ysgol. Mae staff yn annog pob un o'r disgyblion i ymgymryd â rolau arwain yn effeithiol ar amrywiaeth o grwpiau gwerthfawr. Mae'r ddarpariaeth hon yn ehangu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd dinasyddiaeth weithgar a phwysigrwydd cyfraniadau unigolion at gymorth a hyrwyddo cymdeithas bwrpasol. Er enghraifft, mae aelodau o'r Cyngor Ysgol yn arwain gwasanaethau i esbonio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Maent hefyd yn gwerthuso arferion yr ysgol yn ystyriol o ddydd i ddydd, fel ystyried effeithiolrwydd ei pholisi ymddygiad.

Mae gan yr ysgol ystod fuddiol o gyfleoedd sy'n helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth dda o'u treftadaeth Gymreig. Er enghraifft, mae'r ysgol yn hyrwyddo 'Wythnos Cymru Ryfeddol', lle mae pob grŵp blwyddyn yn astudio gwahanol artistiaid o Gymru ac agweddau ar dirwedd Gogledd Cymru, sy'n cynnwys lleoedd lleol o ddiddordeb. Mae'r ysgol yn hyrwyddo diwylliant Cymreig yn effeithiol, er enghraifft trwy weithgareddau dawnsio gwerin fel rhan o ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi. Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi disgyblion i fod yn barod i ymgysylltu â diwylliant Cymru a theimlo'n falch o ethos cynhwysol yr ysgol o fewn ei chymuned Gymreig.

Mae staff yn rhoi pwyslais cryf ar ddarparu ystod gyfoethog ac amrywiol o dripiau ac ymweliadau sy'n cefnogi'r cwricwlwm ac yn ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn mynychu prifysgol leol fel profiad byd gwaith, sy'n cynnwys cyfleoedd iddynt fynychu cyfweliadau ac astudio rheolaeth ariannol. Yn ychwanegol, mae disgyblion iau yn ymweld â sŵ cyfagos i ymestyn eu testun 'Anifeiliaid Anhygoel', ac astudio cynefinoedd a chylchoedd bywyd creaduriaid penodol.

Mae staff yn galluogi disgyblion i wneud cyfraniadau cryf at fywyd eu cymuned. Maent yn defnyddio'r profiadau yn gadarnhaol fel bod disgyblion yn datblygu parch ac yn deall bod gofalu am bobl eraill yn bwysig. O ganlyniad, mae disgyblion yn dysgu bod gweithredoedd, fel cymryd rhan mewn rasys hwyl ar gyfer elusennau, yn cefnogi eu cymuned ac yn gwneud gwahaniaeth i fywydau teuluoedd o fewn eu hardal. Mae'r ysgol yn defnyddio addoli ar y cyd yn bwrpasol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol disgyblion yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion yn cefnogi banc bwyd lleol trwy gasglu rhoddion yn eu dathliadau gŵyl y cynhaeaf. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu'n dda at ddealltwriaeth disgyblion fod cefnogi'ch gilydd yn bwysig mewn cymdeithas.

Mae prosesau'r ysgol ar gyfer monitro presenoldeb yn effeithlon ac yn dechrau gwella presenoldeb a phrydlondeb ychydig o ddisgyblion. Mae staff yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd i gynorthwyo disgyblion ac yn deall eu rolau mewn cadw disgyblion yn ddiogel. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn briodol a'r ethos cynhwysol yn gryf. Fodd bynnag, daeth arolygwyr â mater yn ymwneud â diogelwch safle'r ysgol i sylw arweinwyr yr ysgol yn ystod yr arolygiad.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn gweithio'n gydwybodol gydag uwch dîm arweinyddiaeth a sefydlwyd yn ddiweddar, staff, disgyblion, rhieni ac aelodau o'r gymuned i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd a dyheadau uchel ar gyfer disgyblion yn yr ysgol. Mae'r dull

cydweithredol hwn yn llwyddiannus ac yn adlewyrchu arwyddair yr ysgol, sef ‘Dysgu a Thyfu Gyda’n Gilydd’ (‘Learning and Growing Together’), yn effeithiol.

Mae’r pennaeth yn arwain yr ysgol yn ddiwyd ac yn sicrhau bod staff yn canolbwyntio’n uniongyrchol ar greu a hyrwyddo amgylchedd anogol a chynhwysol, lle mae pob un o’r disgyblion a’r oedolion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae’n annog staff i fodelu ymddygiadau a gwerthoedd y bydd cymuned yr ysgol a bywydau ei disgyblion yn y dyfodol yn elwa arnynt, fel hyrwyddo gofal, parch, caredigrwydd a chreadigrwydd fel nodweddion hanfodol o fywyd bob dydd yr ysgol. O ganlyniad, mae perthnasoedd ar draws yr ysgol yn gadarnhaol a cheir ymrwymiad ar y cyd i wella darpariaeth yr ysgol a deilliannau disgyblion.

Yn gyffredinol, mae gan staff rolau a chyfrifoldebau clir, ac mae’r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo eu bod yn rhan bwysig o broses wella’r ysgol. Er enghraifft, maent yn gweithio mewn grwpiau dysgu proffesiynol yn llwyddiannus i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd wrth ddylunio’r cwricwlwm. Maent hefyd yn teilwra strategaethau’n dda i werthuso cynnydd disgyblion yn unol ag anghenion yr ysgol, fel datblygu medrau llafaredd Cymraeg disgyblion. Fodd bynnag, nid yw’r pennaeth a’r corff llywodraethol wedi diffinio cyfrifoldebau dirprwyedig uwch arweinwyr yn ddigon cywir ar gyfer holl aelodau’r tîm.

Mae arweinwyr wedi sefydlu ystod o weithgareddau monitro trylwyr i nodi cryfderau’r ysgol a’i meysydd i’w datblygu. Maent yn casglu ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol i lywio eu barn am yr ysgol. Er enghraifft, maent yn ystyried barn disgyblion a rhieni’n synhwyrol, ac yn dadansoddi gwybodaeth yn drylwyr am ba mor dda y mae’r disgyblion yn gwneud cynnydd. Mae’r ysgol yn defnyddio’r canfyddiadau o’r prosesau hunanwerthuso i lywio datblygiad cynllun gwella’r ysgol. Mae hyn yn cynnwys mynd i’r afael â meysydd i’w gwella ym medrau darllen disgyblion trwy amrywiaeth o strategaethau llythrennedd.

Mae arweinwyr a staff yn datblygu defnydd disgyblion o’r rhan fwyaf o dir yr ysgol yn greadigol, yn enwedig ar gyfer y disgyblion iau. Maent wedi cynyddu cyfleusterau awyr agored amgaeedig, sydd wedi caniatáu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddewis ble maent yn dysgu, a sut. Er enghraifft, mae disgyblion meithrin, derbyn a Blwyddyn 1 yn dysgu gwisgo’n briodol ar gyfer dysgu’n uniongyrchol am goginio a garddio yng nghegin ac ardaloedd tyfu’r ysgol yn yr awyr agored. Fodd bynnag, nid yw’r ddarpariaeth awyr agored yn deg ar gyfer y disgyblion iau ar draws pob dosbarth.

Mae’r pennaeth a’r staff yn cydweithio’n dda ag ysgolion eraill a phartneriaid allanol, er enghraifft i gynllunio ar gyfer y cwricwlwm, a’i weithredu. Mae trefniadau i hyrwyddo datblygiad proffesiynol ar gyfer pob un o’r staff yn cysylltu’n dda â blaenoriaethau’r ysgol ar gyfer gwella, er enghraifft trwy arweinwyr yn codi ymwybyddiaeth cynorthwywyr addysgu am feysydd dysgu a phrofiad y Cwricwlwm i Gymru, a thrwy weithredu’r trefniadau ADY newydd.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol iawn i’r ysgol. Maent yn deall eu rolau ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau’n effeithiol, er enghraifft mewn meysydd fel rheolaeth ariannol. Maent yn rhagweithiol o ran diweddaru eu gwybodaeth eu hunain am flaenoriaethau cenedlaethol, fel y Cwricwlwm i Gymru ac effaith tlodi ar y gymuned leol. Caiff llywodraethwyr cyswllt eu neilltuo i bob maes dysgu a phrofiad y cwricwlwm, ac maent yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn synhwyrol. Er enghraifft, maent yn cydnabod

cynnydd yr ysgol dros y blynyddoedd diwethaf ac yn cefnogi'r blaenoriaethau i ddatblygu cysondeb gwell ym medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Mae gan lywodraethwyr ddarlun cywir a manwl o'r ysgol, a gafwyd trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau fel gwrando ar ddisgyblion a thrafodaethau rheolaidd ac adroddiadau addysgiadol gan y pennaeth. Maent yn cysylltu'n agos â staff i sicrhau bod gweithdrefnau addas i hyrwyddo pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ymhlith disgyblion. O ganlyniad, mae llywodraethwyr yn cyfrannu llais adeiladol a meddylgar o ran symud yr ysgol ymlaen.

Caiff rhieni eu hysbysu'n dda am ddatblygiadau'r ysgol, er enghraifft trwy ddefnyddio cylchlythyrau electronig, ap yr ysgol a phresenoldeb staff yn ystod amseroedd gollwng a chodi. Mae rhieni'n teimlo bod yr ysgol yn amgylchedd teuluol diogel a gofalgar. Maent yn gwerthfawrogi pa mor gyflym y mae arweinwyr a staff yn ymateb i unrhyw bryderon a godir ganddynt, ac mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

Mae arweinwyr yn rheoli'r gyllideb yn ddarbodus ac yn dyrannu adnoddau i ddiwallu anghenion yr ysgol yn dda. Mae hyn yn cynnwys y grant datblygu disgyblion, sy'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol gan yr ysgol i gynorthwyo disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/05/2023